

RHAGARWEINIAD

Daw cyrens duon (*Ribes nigra*) a dyfir ym Mhrydain o rywogaethau sy'n dod yn wreiddiol o Sgandinafia, Siberia, Gogledd America, Gogledd Ewrop a Gogledd Affrica. Fe'u gwelwyd gyntaf mewn gerddi ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Y prif fannau lle tyfir cyrens duon yn fasnachol ym Mhrydain yw Gorllewin Canolbarth Lloegr, Norfolk a Caint.

Lefelau uchel o anthocyaninau yn y ffrwyth sy'n rhoi eu lliw glas/porffor/du arbennig i gyrens duon. Mae'r anthocyaninau hyn yn wrthocsidyddion hynod gryf sy'n golygu bod y ffrwythau'n llesol iawn. Mae cyrens duon yn cynnwys mwy o fitamin C a mwy o wrthocsidyddion na llawer o ffrwythau a llysiau eraill, yn cynnwys llus.

Ers y 1960au mae rhaglenni bridio yn y Scottish Crops Research Institution (SCRI) wedi cynhyrchu nifer o fathau newydd sydd wedi bod yn boblogaidd gyda thyfwyr a phroseswyr. Mae'r rhain yn cynnwys Ben Lomond (1975) a Ben Alder (1988) ac, yn fwyaf diweddar, Ben Sarak a Ben Moore. Ers diwedd y 1960au mae rhaglenni bridio yn yr SCRI wedi dethol mathau sy'n gallu gwrthsefyll rhew ac afiechydon; sy'n cynhyrchu ffrwyth o ansawdd a blas rhagorol ac sy'n cynnwys llawer o fitamin C. Mae mathau newydd yn cynnwys Ben Connan, Ben Tirran a Big Ben. SCRI yw sefydliad blaenaf y byd ym maes bridio cyrens duon, gyda'u mathau yn cynrychioli dros 50% o'r cnwd byd-eang.

Ers canol y 90au tan ganol y 2000au mae'r cyrens duon a dyfir ym Mhrydain wedi cynyddu'n gyson, ac erbyn hyn mae'r arwynebedd tua 2.6k hectar.

Tabl 1: Arwynebedd a chnwd cynhyrchu cyrens duon ym Mhrydain, 2006

Cynhyrchu cyrens duon ym Mhrydain yn 2006	
Arwynebedd dan gyrens duon ym Mhrydain UK (2006)	2,600 ha
Cnwd yr hectar ar gyfartaledd	6 tonnell

FFURF A DATBLYGIAD Y CNWD

Cynhyrchir y cnwd cyrens duon ar lwyni tua 1m - 1.5m o uchder ac ar draws. Ceir yr aeron ar goesynnau main sy'n tyfu o geinciau coesynnau a gynhyrchwyd y flwyddyn cynt. Gall y coesynnau blwydd oed hyn fod yn goesynnau hir, cryf yn codi o waelod y llwyn neu o'r brigau hŷn.

Mae blodau cyrens duon yn dechrau ffurfio yn niwedd yr haf a'r hydref. Gwelir blagur yn ymddangos yng nghesail dail ar goesynnau sydd wedi tyfu yn y flwyddyn honno. Ar goesynnau newydd hir iawn, mae'n bosibl na fydd rhai blagur yn y gwaelod yn cynnwys blodau, ond aros yn llystyfol. Fel rheol mae blagur blodau'n cynnwys dwy neu dair o goesynnau main, pob un gyda phump i bymtheg neu fwy o flodau. Ceir amrywiaeth mawr yn nifer y blodau ar wahanol fathau o lwyni.

Mae'r holl fathau ym Mhrydain yn hunan-ffrwythlon ac angen eu peillio gan bryfetach yn ogystal â gwynt.

Yn ystod Mawrth ac Ebrill mae'r blagur yn ffrwydro'n agored i gynhyrchu dail a blodau. Unwaith y maent wedi'u peillio mae'r aeron yn dechrau tyfu ac fel rheol maent yn barod i'w hel yng Ngorffennaf ac Awst.

MATHAU

Mae amrywiaeth mawr o fathau o gyrens duon ar gael: mae gan y Brogdale Horticulture Trust dros 100 o fathau yn ei gasgliad. Fodd bynnag, tuedda tyfwyr masnachol i ganolbwyntio ar dri neu bedwar o brif fathau; Ben Cannan (Cynnar), Ben Hope (Canol), Ben Sarek (Hwyr) a Ben Tirran (Hwyr).

Y Scottish Crop Research Institute (SCRI) yn Invergowrie ger Dundee sy'n bennaf gyfrifol am fridio a dethol ym Mhrydain. Y math 'Ben' cyntaf i'w ddatblygu yn y Scottish Crop Research Institute oedd 'Ben Lomond', a ddaeth ar gael yn 1975. Ers hynny mae dros 20 o fathau 'Ben' eraill wedi cael eu cynhyrchu.

Dylai tyfwyr fod yn ymwybodol bod rhai mathau o gyrens duon yn cael eu gwarchod gan Hawliau Bridwyr Planhigion – mae hyn yn golygu nad ydynt i'w defnyddio fel stoc ar gyfer cynhyrchu planhigion newydd heb ganiatâd gan ddeiliad yr Hawliau.

Ceir nodiadau manylach ar fathau cyrens duon yn nhabl 2.

CNYDAU

I ddechrau, roedd cnydau cyrens duon yn siomedig – gyda rhai o'r mathau cynharach yn cynhyrchu ond tua 2.5 tunnell/ha. Fodd bynnag, ers y 1950au mae cnydau wedi cynyddu (ac eithrio mewn tymhorau lle cafwyd rhew caled yn y gwanwyn). Mae nifer o ffactorau'n gyfrifol am y cynnydd hwn:

- Gwelliant yn iechyd y llwyni (ardystio)
- Dewis safleoedd yn ofalus
- Defnyddio dyrfrâu'n fwy effeithiol
- Defnyddio chwynladdwyr i ddileu cystadleuaeth
- Rheoli plâu ac afiechydon yn fwy effeithiol
- Defnyddio systemau ysgeintio dŵr i warchod rhag rhew

Erbyn hyn mae'r mathau newydd yn rhoi cnwd o 7 - 8 tunnell / ha yn rheolaidd.

MARCHNADOEDD

Defnyddir cyfran helaeth o'r cnwd ar gyfer cynhyrchu sudd a jam. Mae'r galw am y nwyddau hyn yn weddol sefydlog ond gwelwyd cynnydd yn y galw am gyrens tun, cyrens wedi'u rhewi a chyrens duon ar gyfer iogwrt ac i lenwi cacennau. Defnyddir swm bychan o ffrwyth hefyd yn y fasnach felysion.

Anaml y caiff y ffrwyth ei fwyta'n amrwd ac er y gallai gwelliant mewn cyflenwadau arwain at fwy o ddefnydd, gallai cost uchel marchnata achosi i gwsmeriaid fod yn gyndyn o dalu prisiau uwch.

Taflenni CALU ar Gynhyrchu Ffrwythau – CYRENS DUON

Tabl 2: nodweddion cyffredinol cyrens duon a dyfir yn gyffredin

Tymor	Math	Dyddiad rhyddhau	Sylwadau	Cynnwys Fitamin C	Cnwd	Twf
Cynnar	Ben Gairn	1998	Da am wrthsefyll afiechydon. Cynhyrchu aeron canolig eu maint gyda blas da.		Canolig	Cryno
	Ben Connan		Ffrwyth mawr a blasus; poblogaidd gyda garddwyr.		Uchel	Cryno
	Boskoop Giant	1880	Math grymus gyda ffrwyth mawr melys. Hwyr yn deilio.		Canolig	Unionsyth, brigau isel
	Laxtons Giant		Gall ddioddef oddi wrth wyntoedd cryf. Cnwd da gyda ffrwyth melys, llawn sudd.		Canolig	
	Mendip Cross	1970s	Cynhyrchu ffrwyth mawr hawdd eu hel. Baldwin X Boskoop Giant (chwaer i Malvern Cross)	Canolig		
	Ebony	2000s	Cynhyrchu aeron melys iawn gyda blas tebyg i geirios. Da am wrthsefyll llwydni.	Uchel	Uchel	Arferol
	Big Ben	2000s	Cnwd eithriadol o drwm. Ffrwythau mawr iawn a sgleiniog gyda chrwyn meddal. Arbennig o uchel mewn anthocyaninau.		Uchel iawn	Arferol
Canol	Blackdown		Cnwd cynnar i ganolig gyda ffrwyth mawr ac ychydig yn felys.	Isel		
	Wellington XXX	1913	Aeron blasus, poblogaidd gyda garddwyr.	Uchel	Uchel iawn	Arferol, ymledu ychydig
	Malvern Cross	1970s	Baldwin X Boskoop Giant (chwaer i Mendip Cross)	Canolig		
	Ben Hope	1998	Aeron o faint canolig gyda blas da. Gallu gwrthsefyll gwiddon chwyddi i raddau.	Uchel	Uchel	Unionsyth

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw beth a wneir ar sail ei chynnwys.

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy

Taflenni CALU ar Gynhyrchu Ffrwythau – CYRENS DUON



Tymor	Math	Dyddiad rhyddhau	Sylwadau	Cynnwys Fitamin C	Cnwd	Twf
Hwyr	Ben Sarek		Llwyn bychan hynod gynhyrchiol – addas iawn ar gyfer plannu'n agos at ei gilydd.	Uchel	Uchel	Cryno
	Baldwin	1880	Aeron canolig eu maint gyda blas da. Bu unwaith yn fath dibynadwy ond yn dueddol i ddiodef oddi wrth afiechydon erbyn hyn.	Canolig	Uchel	Tal
	Ben Lomond	1972	Blodau'n dda am wrthsefyll rhew. Ffrwyth mawr iawn a blasus.	Canolig/ Uchel	Uchel	Cryno, ymledu ychydig
	Ben More		Llwyn hawdd ei drin. Blodeuo'n hwyr, felly'n osgoi rhew gwanwyn fel rheol, ond gyda'r fantais o ffrwytho'n weddol gynnar.		Uchel	Arferol
	Ben Nevis	1974	Delfrydol ar gyfer y system o dorri'r holl llwyn i lawr a thyfu ffrwyth ar goed ifanc bob yn ail tymor. Gall y ffrwyth wrthsefyll rhew ac mae'r aeron yn aeddfedu'n wastad. Ffrwyth arbennig o fawr.		Uchel	Arferol, tal
	Ben Alder	1989	Blas da, argymhellir ar gyfer sudd a phrosesu. Ben More X Ben Lomond. Blodeuo'n gynnar ond cynaeafu'n hwyr.	Canolig	Uchel	Arferol
	Ben Dorain	2003	Ben Alder X Ben Lomond. Cynhyrchu aeron da iawn ar gyfer sudd. Chwiorodd i Ben Avon.	Uchel iawn	Uchel	Unionsyth
Hwyr iawn	Malling Jet	1974	Blodeuo ac aeddfedu'n hwyr felly mae llai o siawns diodef difrod rhew.			Arferol
	Ben Tirran	1990	Da am wrthsefyll afiechydon oherwydd tymor blodeuo hwyr. Math a dyfir ar raddfa fawr yn fasnachol.	Canolig	Uchel iawn	Arferol

Gofynion cyffredinol 800-1,600 awr o dymheredd o dan 7°C. Diffyg oerni = blagur yn agor yn anwastad

Tra gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw beth a wneir ar sail ei chynnwys.

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy